




RFS
ROYAL FORESTRY SOCIETY



GWOBR COEDWIGWR IFANC CYMRU

2025

 **Cyfoeth
Naturiol
Cymru**
**Natural
Resources
Wales**



Gwobr Coedwigwr Ifanc Cymru Llawlyfr Arweinwyr

Nodau

Nod Gwobr Coedwigwr Ifanc Cymru yw rhoi cipolwg i blant a phobl ifanc ar y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gyrfa mewn Coedwigaeth yn ogystal â rhoi'r gallu ymarferol iddyn nhw helpu i reoli coetiroedd yn eu lleoliad neu yn eu cymunedau lleol.

Beth mae'n ei gynnwys?

- Chwe thema i archwilio sgiliau coedwigwr.
- Llyfryn cwrs i ddysgwyr gofnodi a myfyrio ar eu llwyddiannau.

Pa gyfleusterau sydd eu hangen?



- Mae Gwobr Coedwigwr Ifanc Cymru wedi'i dylunio i gael ei chyflwyno yn yr awyr agored, ond mae yna nifer o ffyrdd y gellir ymestyn y dysgu ar ôl dychwelyd i'r ystafell ddosbarth.
- Mynediad at rywfaent o goed, yn ddelfrydol o leiaf chwe rhywogaeth wahanol. Nid oes angen plannu'r rhain fel coetir, gallan nhw fod o amgylch tir y lleoliad, mewn gwrych neu gerllaw yn y Gymuned leol. Dewch o hyd i'ch man gwyrdd lleol yma – [MapDataCymru](#).

Oes angen i'n staff gael hyfforddiant penodol i ddarparu'r wobwr hon?

- Mae'r wobwr wedi'i chynllunio i fod yn hygyrch i bob lleoliad heb fod angen cymwysterau penodol, er y byddai'n fuddiol cael naill ai achrediad Ymarferydd Dysgu Awyr Agored seiliedig ar gwricwlwm [Agored Cymru](#) neu achrediad Ysgol Goedwig. Os yw lleoliad yn dewis cwblhau'r gweithgareddau sy'n defnyddio offer, rhaid i'r arweinydd grwp fod â chymhwyster Arweinydd Ysgol Goedwig Lefel 3, neu gymhwyster cyfatebol arall, sydd wedi asesu eu diogelwch o ran addysgu a defnyddio offer.

Pa adnoddau fydd eu hangen?

- Llyfryn Gwobr Coedwigwr Ifanc Cymru ar gyfer pob dysgwr.
- Bydd angen dillad ar ddysgwyr y gallan nhw eu baeddu. Mae angen i'r rhain fod yn ddillad sy'n briodol i'r tywydd, megis esgidiau cadarn, dillad gwrth-ddŵr, haenau os yw'n oer, hetiau, llewys hir a gorchuddion coesau, amddiffyniad rhag yr haul a chynnyrch gwarchod rhag pryfed.
- Sonnir am adnoddau dewisol ynghyd â phob cynllun sesiwn, ond gellir addasu'r rhain i weddu i'r hyn sydd gennych ar gael, gallu eich dysgwyr, a'u diddordeb yn y gweithgareddau.
- Gellir prynu tystysgrifau a bathodynau dewisol o siop y Gymdeithas Goedwigaeth Frenhinol (RFS) i'w cyflwyno ar ôl cwblhau'r wobwr yn llwyddiannus.



Sut mae defnyddio'r llawlyfr hwn?

Mae'r wobr wedi'i rhannu'n chwe thema, pob un yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau i chi eu dewis yn dibynnu ar lefel a diddordebau eich grŵp, ac ar yr adnoddau a'r gofod sydd ar gael i chi.

Cwestiynau Allweddol

Ar ddechrau pob thema mae cyfres o gwestiynau i chi ddewis o'u plith i archwilio'r thema gyda'ch grŵp.

Cysylltu

Gweithgareddau i gychwyn arni'n gyflym ydy'r rhain, sydd naill ai'n gwirio dealltwriaeth bresennol y dysgwyr o bwnc neu'n cyflwyno syniad newydd trwy archwilio a chwarae.

Herio



Mae'r gweithgareddau hyn wedi'u dylunio i annog eich grŵp i ddechrau meddwl neu ddatblygu sgiliau newydd. Dewiswch o'r opsiynau yn ôl beth sydd fwyaf addas i'ch grŵp chi.

Cadarnhau

Ydyn nhw'n gallu rhoi'r wybodaeth neu'r sgiliau newydd y maen nhw wedi'u dysgu yn y thema hon ar waith?

Gam Ymhellach

Mae modd archwilio unrhyw un o'r themâu mewn un sesiwn, ond gellir eu datblygu hefyd yn uned lawn o waith. Fe allech roi cynnig ar rai o'r syniadau hyn i ymestyn dysgu eich grŵp.



Dull cytbwys


Yn unol â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, wrth gynllunio a darparu cyfleoedd a phrofiadau dysgu, y nod yw nid dileu risg ond pwyso a mesur y risgiau a'r manteision a gweithredu'n unol â hynny. Cydnabyddir bod caniatáu i bob oed a gallu gael cyfleoedd dysgu heriol sydd â rhywfaint o risg yn fuddiol ac yn rhoi sgiliau bywyd. Mae hyn yn golygu bod risgiau a buddion yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'i gilydd mewn asesiad risg/budd. Wrth ystyried buddion y gweithgaredd arfaethedig, gwiriwch fod unrhyw ragofalon yn ymarferol ac yn gymesur ac yn adlewyrchu lefel y risg.

Wrth ddarparu gweithgareddau, mae'r Arweinydd Grŵp (a'r rhai sy'n eu helpu i gyflwyno) yn gyfrifol am sicrhau bod yswiriant digonol, polisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch, gan gynnwys caniatâd i gymryd rhan, gweithdrefnau brys, ac ati, yn eu lle ac yn cael eu cyfathrebu i'r grŵp.

Bydd angen asesiad risg/budd sy'n berthnasol i'ch lleoliad a'ch dysgwyr cyn yr holl weithgareddau a gynllunnir. Er enghraifft, ble mae ffiniau'r safle, gweithdrefn galw'n ôl, beth y gallan nhw ei gyffwrdd, beth i'w wneud os ydyn nhw'n dod o hyd i unrhyw beth a allai fod yn beryglus, beth i'w wneud mewn argyfwng, ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall.

Atgoffwch y grŵp ar ddechrau pob sesiwn am unrhyw reolaethau diogelwch a nodwyd o'ch asesiad risg/budd.





Thema 1: Rheoli Risg

Y Cwricwlwm i Gymru

Iechyd a Lles	Y Dyniaethau
Yr hyn sy'n bwysig - Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddion gydol oes.	Yr hyn sy'n bwysig - Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.
Yr hyn sy'n bwysig - Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill.	Yr hyn sy'n bwysig - Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.

Nodyn i'r Arweinydd

Mae'n bwysig iawn yn y sesiwn gyntaf hon dod i ddeall beth yw lefel bresennol gwybodaeth y dysgwyr am y coetir a herio unrhyw gamsyniadau. Yn ôl ein profiad ni o weithio gyda llawer o blant o ardaloedd trefol, maen nhw'n aml yn meddwl bod eirth a bleiddiaid yn y goedwig a allai eu brifo. Rydyn ni eisiau iddyn nhw fod yn ddiogel yn y goedwig ond hefyd ymlacio a mwynhau bod yno heb boeni am bethau fydd ddim yn digwydd.


Mae hefyd yn bwysig sicrhau cydbwysedd a bod yn ystyriol. Mae'n dechnegol bosib y gallai llong ofod ddymchwel ar ben y goedwig tra byddan nhw yno, ond pa mor debygol yw hynny? Fe allech chi geisio cael gwared ar yr holl beryglon baglu o goedwig, ond a yw hynny'n beth da i'r anifeiliaid sy'n byw yno? Sut mae cydbwysu eu hanghenion nhw?

Adnoddau

- Asesiad risg/budd y safle a'r gweithgaredd
- Conau, baneri, rhubanau, neu arwyddion rhybudd triogl
- Menig ac offer garddio (dewisol)

Cwestiynau Allweddol

- Pa beryglon (rhywbeth a all achosi niwed) y gallai pobl ddod ar eu traws yn y goedwig?
- Sut gallan nhw gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel?
- Pam fod angen i goedwigwr sicrhau bod y goedwig y mae'n ei rheoli yn ddiogel?
- Beth yw'r risg y bydd unrhyw un o'r peryglon a nodwyd yn achosi niwed i rywun?
- Ydyn nhw'n gallu nodi buddion gweithgaredd fel chwarae yn y coed, a chydbwysu'r buddion yn erbyn y risg? Beth am debygolrwydd?
- Pa gamau eraill y gallen nhw eu cymryd i wneud y safle'n fwy diogel i'w ddefnyddio?



Herio

- Dewiswch rai o'r cwestiynau allweddol uchod i'w trafod gyda'ch grŵp ac archwiliwch beth maen nhw'n ddeall am beryglon a risgiau.
- Y dysgwyr i ddefnyddio conau neu arwyddion rhybudd i nodi peryglon yn eu coedwig. Gofynnwch iddyn nhw drafod beth yw'r risg maen nhw wedi'i ganfod a pha fesurau rheoli maen nhw am eu rhoi ar waith.


Cadarnhau

Pa rai o'u camau fyddai modd eu cymryd i sicrhau diogelwch ymwelwyr? Er enghraifft:

- Clirio llwybrau.
- Rhoi ymylon ar lwybrau gyda changhennau neu foncyffion i ddangos ble mae'n ddiogel cerdded.
- Rhoi naddion rhisgl i leihau'r perygl o lithro.
- Tynnu danadl poethion a thorri mieri yn ôl.
- Hel sbwriel.
- Gwneud arwyddion i ofyn i bobl fynd â'u sbwriel adref gyda nhw, neu i gadw cŵn ar dennyn tra bydd plant yn chwarae.

Gam Ymhellach

Crëwch fap digidol neu bapur o'r ardal yn dangos eu syniadau i wella'r goedwig.



Thema 2: Adnabod Coed a Phlanhigion

Y Cwricwlwm i Gymru


Gwyddoniaeth a Thechnoleg	Y Dyniaethau	Mathemateg a Rhifedd
Yr hyn sy'n bwysig - Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau.	Yr hyn sy'n bwysig - Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.	Yr hyn sy'n bwysig - Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau.
Yr hyn sy'n bwysig - Mae'r byd o'n cwrmpas yn llawn o bethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.	Yr hyn sy'n bwysig - Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.	Yr hyn sy'n bwysig - Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomenau yn y byd ffisegol.

Adnoddau

- Canllawiau, apiau, neu lyfrau adnabod coed a phlanhigion
- Cynfasau neu darpolinau (o leiaf un rhwng 6)
- Deunyddiau ysgrifennu
- Dyfeisiau clyfar (dewisol)

Cwestiynau Allweddol

- Pa rywogaethau o goed a phlanhigion coetir allwch chi eu henwi?
- Sut gallwn ni ddweud y gwahaniaeth rhwng pob math o goedden?
- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng coed conwydd a llydanddail?
- Pa ffactorau sy'n dylanwadu ar pam fod coed yn wahanol?
- A oedd y coed hyn yma erioed neu a yw pobl wedi dylanwadu ar yr hyn sydd wedi tyfu neu sydd wedi'i blannu?
- Pam fod angen i goedwigwr wybod enwau gwahanol goed yn y goedwig y mae'n ei rheoli?



Cysylltu

Dewiswch rai o'r cwestiynau allweddol uchod i'w trafod gyda'ch grŵp. Fe allech wneud hyn drwy archwilio rhai o'r pwyntiau isod:

- Gofynnwch i'ch dysgwyr lunio rhestr o unrhyw enwau coed maen nhw'n eu gwybod. Ydyn nhw'n gallu adnabod y coed yn ôl eu golwg ac, os felly, sut maen nhw'n gwneud hynny?
- Ystyriwch sut mae modd gwahaniaethu rhwng gwahanol rywogaethau o goed. Er enghraifft, yn ôl siâp y dail, patrymau'r rhisgl, siâp y blagur.
- Trafodwch y gwahaniaethau rhwng y ddau fath o goed yng Nghymru – coed conwydd (coed sydd fel arfer â phren meddal, yn fytholwyrdd, yn cynhyrchu hadau mewn conau, ac sydd â dail tebyg i nodwyddau neu ddail cennog); a choed llydanddail (coed sydd fel arfer â phren caled ac sy'n gollddail, hynny yw, yn colli eu dail llydan, gwastad yn yr hydref).
- Ydyn nhw'n gwybod ai coed conwydd neu lydanddail yw unrhyw rai o'r coed maen nhw'n gallu eu henwi?

Herio

Gofynnwch i'ch dysgwyr geisio adnabod y coed sy'n tyfu yn eich ardal.

Mae llawer o wahanol ffyrdd y gallech wneud hyn, gan gynnwys:

- Casglu dail, brigau, hadau, ac ati, gan ddod â'u dalfeydd yn ôl i'r tarpolin i'w didoli'n grwpiau ac i'w cymharu â'r taflenni adnabod.
- Defnyddio apiau digidol i adnabod planhigion.



Cadarnhau

Chwaraewch gêm ble rydych chi'n galw enw coeden neu ffaith am goeden, a rhaid iddyn nhw redeg at y goeden gywir.

Gam Ymhellach

Fe allwch ymestyn y dysgu mewn llawer o ffyrdd, naill ai yn yr awyr agored neu ar ôl dychwelyd i'r dosbarth. Er enghraifft:

- Gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu labeli ar gyfer y pethau maen nhw'n eu darganfod. Neu tynnwch luniau o'r gwahanol rywogaethau o goed a phlanhigion maen nhw wedi'u hadnabod, ac anodwch nhw a'u labelu'n ddigidol.
- Ydyn nhw'n gallu adnabod y gwahanol haenau o lystyfiant sy ar y safle, o'r llawr i'r canopi?
- Ydyn nhw'n gallu defnyddio beth maen nhw wedi'i ganfod i greu map papur neu ddigidol o'r rhywogaethau, neu eu canllaw adnabod eu hunain?
- Ymchwiliwch i ba rywogaethau o goed sy'n frodorol i Gymru, a pha rai sydd wedi'u cyflwyno a pham.



Thema 3: Pwy sy'n byw mewn coedwig fel hon?

Y Cwricwlwm i Gymru


Gwyddoniaeth a Thechnoleg	Y Dyniaethau	Mathemateg a Rhifedd
Yr hyn sy'n bwysig - Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau.	Yr hyn sy'n bwysig - Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydded am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.	Yr hyn sy'n bwysig - Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintoli ffenomenau yn y byd ffisegol.
Yr hyn sy'n bwysig - Mae'r byd o'n cwrmpas yn llawn o bethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.	Yr hyn sy'n bwysig - Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.	Yr hyn sy'n bwysig - Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau.

Adnoddau

- Deunyddiau naturiol fel boncyffion, brigau, dail
- Cardiau lluniau wedi'u lamineiddio, tegau neu degau meddal o fywyd gwyllt
- Canllawiau neu apiau adnabod anifeiliaid
- Offer hela trychfilod

Cwestiynau Allweddol

- Beth yw bioamrywiaeth?
- Pa fathau gwahanol o fywyd gwyllt allai fod yn byw yma?
- Pam fod rhai anifeiliaid a oedd yn arfer byw yn ein coedwigoedd wedi diflannu?
- A oes angen ein help ar anifeiliaid gwyllt i oroesi?
- Pam fod angen i goedwigwr wybod pa anifeiliaid sy'n byw yn y goedwig y mae'n ei rheoli?



Cysylltu

Dewiswch rai o'r cwestiynau allweddol uchod i'w trafod gyda'ch grŵp.

Fe allech archwilio hyn gyda'r camau canlynol:

Cuddio'r cardiau llun, y teganau neu'r teganau meddal o amgylch yr ardal. Gwahoddwch eich dysgwyr i chwilota am yr anifeiliaid, gan ddod â phob un maen nhw'n ei ffeindio yn ôl i fan canolog.

Ydyn nhw'n gallu enwi'r anifail? Faint wnaethon nhw eu ffeindio? Ydyn nhw'n gwybod a oes unrhyw rai o'r anifeiliaid hyn yn rhai go iawn neu'n ddychmygol? A oes unrhyw rai yn byw yn lleol? A ddylai unrhyw rai fod yn byw yn rhywle arall ac os felly, ble? Ydyn nhw'n gallu dosbarthu unrhyw rai o'r anifeiliaid yn grwpiau, er enghraifft mamaliaid, adar, infertebratau, ac ati?

Herio

Yn dibynnu ar eich safle, diddordebau eich grŵp a'r amser sydd ar gael, mae llawer o ffyrdd y gallech archwilio'r thema hon, gan gynnwys y canlynol:

Olion

Ydy'ch dysgwyr yn gallu dod o hyd i arwyddion o fywyd anifeiliaid yn y coetir? Ar yr olwg gyntaf, gallai ymddangos fel mai ychydig iawn o fywyd sydd yno, ond bydd yna gliwiau.

Ydyn nhw'n gallu dod o hyd i faw anifeiliaid, plu wedi disgyn, hadau neu gnau wedi'u cnoi, olion traed anifeiliaid neu lwybrau trwy'r isdyfiant?

Cerrig camu bywyd gwyllt

Mae pren marw yn gartref gwerthfawr i amrywiaeth eang o fywyd gwyllt. Yn ofalus, codwch rywffaint o ganghennau sydd wedi cwmpo neu wrthrychau ar eich safle y mae modd eu codi, i weld beth sy'n byw oddi tanynt neu yn y pren marw.

Gwyllo am adar

Efallai bod yna adar yn ymweld â'ch safle sy'n gymharol hawdd i'w hadnabod a'u cofnodi. Ond ystyriwch sut gallwch adnabod y rhai sy'n anoddach i'w gweld! Efallai y bydd angen i chi adeiladu cuddfan adar neu ddefnyddio apiau i recordio ac adnabod adar yn ôl eu cân.


Gam Ymhellach

Fe allech ofyn i'ch grŵp gynnal arolwg o'r anifeiliaid ar y safle gyda gweithgareddau fel helpa infertebratau, defnyddio sgiliau gwaith maes fel gwneud pydewon maglu, a churo coed.

Cadarnhau

Efallai yr hoffai eich dysgwyr addasu'r gêm lafar glasurol "Es i'r farchnad a phrynais i..." i weld faint gallan nhw ei gofio am eu hymweliad â'r coetir: "Es i'r goedwig a gwelais i..."

Fe allen nhw hefyd ddefnyddio beth ddaethon nhw o hyd iddo fel sbardun ar gyfer darn o waith ysgrifennu estynedig neu waith creadigol yn archwilio harddwch ac amrywiaeth bywyd y goedwig.



Thema 4: Defnyddio pren

Y Cwricwlwm i Gymru


Gwyddoniaeth a Thechnoleg	Y Dyniaethau	Y Celfyddydau Mynegiannol
Yr hyn sy'n bwysig - Mae meddylfryd dylunio a pheirianteg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas.	Yr hyn sy'n bwysig - Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.	Yr hyn sy'n bwysig - Mae ymateb a myfrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol.
Yr hyn sy'n bwysig - Mae mater a'r ffordd y mae'n ymddwyn yn diffinio ein bydysawd ac yn ffurfio ein bywydau.	Yr hyn sy'n bwysig - Mae dinasyddion gwybodol, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol.	Yr hyn sy'n bwysig - Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyr, ysbrydoliaeth a dychymyg.

Adnoddau

- Deunyddiau naturiol fel boncyffion, brigau a dail
- Llinyn
- Nodyn gwybodaeth – [Cysgodfannau a chuddfannau](#)
- Cerdyn adnoddau – [Her lloches greadigol](#)

Cwestiynau Allweddol

- Beth yw pren marw a phren gwyrdd?
- Ar gyfer beth rydyn ni'n defnyddio pren?
- Pa fathau gwahanol o bren ydyn ni'n eu defnyddio?
- Pam fod rhai coed yn rhoi pren caled i ni, a rhai'n rhoi pren meddal?
- Pam rydyn ni'n defnyddio gwahanol rywogaethau o goed i wneud rhai eitemau?
- Beth fydden ni'n ei ddefnyddio os na fydden ni'n gallu defnyddio pren?
- A yw defnyddio pren yn gynaliadwy?



Cysylltu

Dewiswch rai o'r cwestiynau allweddol uchod i'w trafod gyda'ch grŵp.

Ydy'ch dysgwyr yn gallu dod o hyd i 5 eitem yn eich ardal sydd wedi'u gwneud o bren? Pam y dewiswyd pren fel y deunydd gorau ar gyfer gwneud y pethau hyn? Beth yw'r anfantais o bosib o wneud y rhain o blastig neu fetel?

Neu: Os nad oes pethau wedi'u gwneud o bren yn eich ardal awyr agored, beth am fynd â basged ddarganfod yn cynnwys 20 o wrthrychau cyffredin o'r cartref neu'r lleoliad? Pa rai sydd wedi eu gwneud o bren? Pam fod pren yn adnodd cynaliadwy?

Herio

Yn dibynnu ar eich safle, diddordebau eich grŵp a'r amser sydd ar gael, mae llawer o ffyrdd y gallech archwilio'r thema hon, gan gynnwys y canlynol:

Gwestai trychfilod

Mae pren marw yn wirioneddol bwysig fel cartref i'r cannoedd o fathau o drychfilod sydd yn ein coetiroedd. Adeiladwch bentyrrau cynefin a gwestai trychfilod i bryfed sy'n gaeafgysgu eu defnyddio dros y gaeaf. Mae llawer o ddyluniadau ar-lein ar gyfer gwestai trychfilod mwy cymhleth, gan gynnwys gan yr RSPB.

Ydy'ch dysgwyr yn gallu dewis ardaloedd addas i leoli'r bentyrrau cynefin a'r gwestai trychfilod fel na fydd dim yn tarfu arnyn nhw?


Creu gwrych marw

Mae'n gymharol arferol i'r tir fod yn hollol foel mewn safle coedwig sy'n cael ei ddefnyddio'n rheolaidd, am fod traed yn sathru ar bob tyfiant newydd, peryglon baglu yn cael eu clirio, a changhennau sydd wedi disgyn yn cael eu defnyddio i wneud cuddfannau a chrefftau. Ydy'ch dysgwyr yn gallu meddwl am unrhyw weithgareddau a allai arwain at wneud y tir yn foel a pham gallai hyn fod yn wael i blanhigion a bywyd gwyllt yr ardal?

Gofynnwch i'ch dysgwyr asesu effaith gweithgareddau pobl ar yr ardal. Fe allen nhw amcangyfrif hyn â'r llygad, neu gynnal arolwg cwadrat mewn ardaloedd ar hap i chwilio am ganran y tir moel a'r llystyfiant wedi'i sathru.

Gofynnwch i'ch dysgwyr ddod i gytundeb ynglŷn â neilltuo canran o'r ardal i'w hamddiffyn rhag gweithgareddau pobl. Pa ardal fyddai orau? Trafodwch pam y byddai hyn yn beth da i'w wneud.

Ar ôl cytuno ar y dasg, bydd y grŵp yn cydweithio i hel canghennau sydd wedi disgyn a deunydd marw arall i wneud "gwrych marw" sy'n dynodi hon fel ardal warchodedig ac a fydd hefyd yn darparu cynefin i fywyd gwyllt.



Adeiladu lloches

Efallai yr hoffai pobl sy'n ymweld â'ch coedwig rywle i orffwys ac ymlacio. Gofynnwch i'ch dysgwyr weithio gyda'i gilydd i greu lloches. Os nad oes gennych ddigon o ddeunydd naturiol, gallai hon fod yn lloches fach.


Gofynnwch i'ch dysgwyr hel y deunyddiau ynghyd cyn adeiladu eu lloches. Ar ôl gorffen adeiladu, trafodwch eu barn am y gweithgaredd a sut maen nhw'n teimlo am eu cynnyrch terfynol.

Cadarnhau

Mae hwn yn bwnc da i ddod yn ôl ato yn ddiweddarach yn y wobr er mwyn gwerthuso. Pa effaith mae gosod y nodweddion hyn wedi'i chael ar eich safle?

Gam Ymhellach

Fe allech ofyn i'ch dysgwyr wneud y gweithgaredd Sut mae coeden yn gweithio.



Thema 5: Rheoli Coetiroedd

Y Cwricwlwm i Gymru

Gwyddoniaeth a Thechnoleg	Y Dyniaethau	Iechyd a Lles
Yr hyn sy'n bwysig - Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau.	Yr hyn sy'n bwysig - Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.	Yr hyn sy'n bwysig - Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes.
Yr hyn sy'n bwysig - Mae'r byd o'n cwrpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.	Yr hyn sy'n bwysig - Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.	Yr hyn sy'n bwysig - Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill.

Llwybr A: Plannu


Yng Nghymru, ystyrir bod y tymor plannu yn rhedeg o fis Hydref i fis Ebrill. Mae hyn yn sicrhau bod y coed yn mynd i'r ddaear mewn amodau sy'n rhoi'r cyfle gorau iddyn nhw sefydlu a thyfu'n goed aeddfed. Os ydych yn bwriadu cynnal y gweithgareddau plannu y tu allan i'r cyfnod yma, efallai yr hoffech ystyried plannu llwyni neu gasglu a phlannu hadau coed yn lle hynny (neu'n ychwanegol).

Cwestiynau Allweddol

- Pam fod coed yn bwysig?
- Ar gyfer beth rydyn ni'n defnyddio coed a phren yn ein bywydau bob dydd?
- Sut mae coed yn helpu i liniaru newid hinsawdd?
- Beth yw coedwigaeth gynaliadwy?
- Pa rywogaethau o goed fydd yn tyfu'n dda yn y ardal hon?
- Beth sydd ei angen ar goed i dyfu?
- Pa dechnegau mae coedwigwyr yn eu defnyddio i dyfu coed a chadw coetiroedd yn iach?

Adnoddau

- Coed, mae'r rhain yn aml ar gael am ddim i ysgolion a lleoliadau trwy amrywiaeth o gynlluniau lleol a chenedlaethol fel coed am ddim i ysgolion gan Coed Cadw. Fel arall, gellir tyfu'r rhain o hadau, neu o 'goed chwiw' 50cm o uchder y gellir eu prynu'n gymharol rad gan amrywiaeth o gwmnïau. Dewiswch fathau brodorol o ffynonellau hadau lleol, a fydd yn tyfu'n dda yn eich lleoliad dewisol ac yn cefnogi bioamrywiaeth leol.
- Polion a gwarchodwyr coed ar gyfer y coed.
- Offer plannu/palu sy'n addas ar gyfer y grŵp a fydd yn eu defnyddio.
- Dŵr a chaniau dŵr.
- Yn dibynnu ar ansawdd y pridd yn eich ardal chi a beth allai fod ynddo, gallai menig neu offer glanhau dwylo fod yn ddefnyddiol.
- Gweithgaredd Pam mae coed yn bwysig?



Cysylltu

Dewiswch rai o'r cwestiynau allweddol uchod i'w trafod gyda'ch grŵp.

Fe allech archwilio hyn gyda'r camau canlynol:

Chwarae'r gweithgaredd Pam mae coed yn bwysig?

Hel deunyddiau naturiol i wneud diagram sy'n dangos yr holl bethau y mae eu hangen ar goed.

Herio

Cyn mynd allan i'r awyr agored, efallai yr hoffech gynnwys eich dysgwyr yn y gwaith cynllunio.

- Pam, yn eu barn nhw, mae hi'n beth da plannu coed ychwanegol?
- Ble mae'r lle gorau i blannu coed?
- Pa goed ddylid eu plannu?

Mae Coed Cadw yn cynnig coed am ddim i ysgolion a chymunedau. Mae eu hadnodd Tree Tools for Schools yn lle ardderchog i gael help gyda chynllunio a chynghor ar blannu coed, ac mae fideo ar blannu coed hefyd.

Ar y safle, dangoswch i'ch grŵp y dechneg gywir ar gyfer plannu coed – gweler y cynllun gweithgaredd plannu coed.

Dosbarthwch y cyfarpar plannu coed a'r coed chwip/glasbrennau a gofynnwch i'r grŵp ddechrau plannu. Peidiwch ag anghofio dyfrio'r coed sydd newydd eu plannu.

Cadarnhau

Fe allech chi:


Drafod faint o amser y bydd yn ei gymryd i weld y planhigyn yn tyfu'n rhywbeth sy'n debyg i goeden. Sut mae'ch dysgwyr yn teimlo am blannu rhywbeth y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn ei fwynhau?

Eglurwch y bydd angen help ar y coed ifanc i oroesi yn eu blynyddoedd cyntaf. Gofynnwch i'ch dysgwyr ddatblygu cynlluniau ar gyfer sicrhau bod y coed yn cael eu dyfrio, eu bod yn glir o chwyrn ac y cânt eu hamddiffyn rhag unrhyw beth a allai fod eisiau eu bwyta.

Gam Ymhellach

Gofynnwch i'ch dysgwyr rannu eu profiadau â'r gymuned ehangach drwy ymgyrchu dros fyd natur, creu flog neu ysgrifennu erthygl ar gyfer cylchlythyr y lleoliad, yr ysgol neu'r gymuned, gan esbonio pam mae'r coed yn cael eu plannu a sut gall pawb ofalu amdanynt.

Defnyddiwch y gweithgareddau Mesur Coed er mwyn i'r grŵp olrhain y newidiadau sy'n digwydd dros amser.



Llwybr B: Defnyddio Offer


Os ydyn nhw'n bwriadu cyflwyno gweithgareddau defnyddio offer, rhaid i'r staff sy'n arwain y gweithgareddau fod wedi cael hyfforddiant priodol a bod yn gymwys i addysgu a defnyddio offer yn ddiogel gyda phobl ifanc.

Cwestiynau Allweddol

- Pam mae coed yn bwysig?
- Ar gyfer beth rydyn ni'n defnyddio coed a phren yn ein bywydau bob dydd?
- Sut mae coed yn helpu i liniaru newid hinsawdd?
- Beth yw coedwigaeth gynaliadwy?
- Pa dechnegau mae coedwigwyr yn eu defnyddio i dyfu coed a chadw coetiroedd yn iach?
- Pa offer mae coedwigwyr yn eu defnyddio i reoli a chwmpo coed?
- Pam rydyn ni'n rheoli coetiroedd a pham mae'n rhaid cwmpo coed o bryd i'w gilydd?

Adnoddau

- Sialc
- Offer addas
- Cardiau adnoddau - Defnyddio offer
- Offer diogelu



Cysylltu

Dewiswch rai o'r cwestiynau allweddol uchod i'w trafod gyda'ch grŵp.

Fe allech archwilio hyn gyda'r camau canlynol:

Gofyn iddynt lunio rhestr o wahanol resymau dros reoli coetir yn gynaliadwy (cynhyrchu pren o safon, hamdden a mynediad, iechyd coed, bioamrywiaeth, lliniaru newid hinsawdd, ac ati).

Eu gwahodd i fynd i chwilota am gynifer o eitemau â phosib sy'n dod o goed neu sydd wedi'u gwneud o bren. Chwaraewch y gweithgaredd Sut mae coeden yn gweithio a / neu Y cylch rheoli coetiroedd.

Herio

Crëwch senario: Mae eich dysgwyr yn goedwigwyr sy'n ystyried beth sydd orau i'w wneud gyda'r coed / y lleoliad coetir, a pham. Yn dibynnu ar y mathau o welliannau neu newidiadau maen nhw'n cytuno arnynt, a oes angen tynnu, tocio neu brysgoedio unrhyw blanhigion neu goed?

Ydyn nhw:

- Yn rhy agos at goed eraill ac yn cyfyngu ar eu twf?
- Yn sâl neu wedi'u difrodi?
- Mewn ardal lle rydych chi am greu llannerch i wella'r amrywiaeth o gynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt neu ar gyfer mynediad / defnydd hamdden?
- Yn goed sydd wedi hadu eu hunan (a gallant fod yn rhywogaethau anfrodorol)?
- Yn addas i'w prysgoedio, i greu coed aml-goesyn er mwyn cyflawni amrywiaeth strwythurol neu ddarparu adnoddau fel gwiall cyll neu helyg.

Gofynnwch i'r grŵp ddefnyddio sialc i farcio'r coed a ddewiswyd i'w tynnu fel y gellir ystyried y penderfyniadau eto cyn defnyddio unrhyw offer. Cytunwch ar y ffordd fwyaf cynaliadwy o ymdrin â'r coed a gwmpwyd. Er enghraifft, eu tynnu i greu cynhyrchion pren, neu adael y pren marw yn gorwedd fel pentwr cynefin.


Cefnogwch eich dysgwyr i wneud unrhyw waith coed y mae ei angen yn ofalus, er enghraifft prysgoedio, tynnu canghennau marw, torri'r canghennau ochrol, clirio'r tyfiant o amgylch glasbrennau, ac ati.

Cadarnhau

Trafodwch gyda'ch dysgwyr sut gellid defnyddio unrhyw bren maen nhw wedi'i dorri.

Gam Ymhellach

Gofynnwch i'ch grŵp ymchwilio i'r mathau o swyddi y mae eu hangen yn y diwydiant coedwigaeth a phren. Pa gymwysterau a sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y swyddi hyn?



Thema 6: Llysoedd Coedwigaeth

Y Cwricwlwm i Gymru


leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu	Y Celfyddydau Mynegiannol	Iechyd a Lles
Yr hyn sy'n bwysig - Mae deall leithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch.	Yr hyn sy'n bwysig - Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol.	Yr hyn sy'n bwysig - Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol.
Yr hyn sy'n bwysig - Mae mynegi ein hunain drwy leithoedd yn allweddol i gyfathrebu.	Yr hyn sy'n bwysig - Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg.	Yr hyn sy'n bwysig - Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill.

Cwestiynau Allweddol

- Faint o goed a choetiroedd sydd yn yr ardal?
- Pam fod pobl yn teimlo cysylltiad â choed?
- Pam fod pobl yn ymweld â choetiroedd?
- Sut dylai pobl ymddwyn wrth ymweld â choetiroedd?
- A fyddwn i'n hoffi gweithio ym maes rheoli coetiroedd neu'r diwydiant coed?
- Beth yw Coedwig Genedlaethol Cymru?

Adnoddau

- Dim





Cysylltu

Dewiswch rai o'r cwestiynau allweddol uchod i'w trafod gyda'ch grŵp.

Fe allech archwilio hyn gyda'r camau canlynol:

- Gofyn i'ch dysgwyr ddisgrifio sut maen nhw'n teimlo pan fyddan nhw'n gweld coed ac yn treulio amser mewn coetir. Defnyddiwch raglen creu cwmwl geiriau neu casglwch yr ymatebion ynghyd i ddangos yr amrywiaeth o deimladau ac emosiynau.
- Gofyn i'r grŵp restru'r ymddygiadau o blaid yr amgylchedd y byddent yn disgwyl i ymwelwyr â choetiroedd lleol eu dangos. Yna gofynnwch iddynt edrych ar God Cefn Gwlad Cymru a'i gymharu â'u rhestr nhw. Oes unrhyw beth ar goll?
- Gofyn i'ch dysgwyr ymchwilio i'r gorchudd coed yn yr ardal lleol. Gallant ddefnyddio offer mapio ar-lein, er enghraifft MapDataCymru, i ganfod coed trefol ac ardaloedd coetir lleol. A oes unrhyw goridorau rhwng y mannau hyn i alluogi bywyd gwyllt i gael mynediad diogel i amrywiaeth o leoedd?
- Trafod pwy maen nhw'n meddwl sy'n rheoli'r coetiroedd lleol. Pwy sy'n berchen ar y tir? Pa fathau o swyddi rheoli coetir lleol sydd yna? Pa sgiliau fyddai eu hangen arnynt i weithio fel coedwigwyr (cysylltwch â sgiliau STEM)? Beth mae coedwigwr yn ei wneud? Edrychwch ar dudalen y Gymdeithas Goedwigaeth Frenhinol ar Yrfaoedd mewn Coedwigaeth a thrafodwch y gwahanol rolau.
- Gwahodd y dysgwyr i edrych yn fanwl ar wrthrychau o faes rheoli coetir neu faes hamdden coetir, gan sbarduno trafodaeth ynghylch eu cysylltiad â choedwig. Er enghraifft, offer mesur coed, helmed diogelwch neu feicio, dillad llachar, esgidiau blaen dur, ysbïenddrych, rhaff ddringo.





Herio

Eglurwch i'ch dysgwyr eu bod yn mynd i gymryd rôl Rheolwr Ymwelwyr Coedwigoedd.

Mewn parau neu grwpiau bach gofynnwch iddyn nhw drafod pwy allai ymweld â'u safle. Pa fath o grwpiau defnyddwyr sy'n mwynhau amser yn y coetiroedd? Er enghraifft, y cyhoedd, beicwyr mynydd, pobl sy'n marchogaeth ceffylau, twristiaid, teuluoedd, cerddwyr cŵn, grwpiau dysgu.

A allan nhw weithio allan pa gyfleusterau hamdden y gallai fod eu hangen neu eu heisiau ar eu hymwelwyr?

Gofynnwch i'ch dysgwyr weithio yn eu grwpiau bach, gan ddefnyddio deunyddiau naturiol i greu model 3D bach o barc coedwig, gan ddangos y pwyntiau o ddiddordeb a'r cyfleusterau sydd ar gael.

Unwaith y bydd pob grŵp wedi cwblhau eu model, gwahoddwch bob un i roi taith fanwl o amgylch eu parc coedwig.



Cadarnhau

Gofynnwch i'ch dysgwyr wahodd ymwelwyr i'r coetir. Gallai'r rhain fod yn rhieni, aelodau o'r gymuned neu grwpiau eraill o'u lleoliad. Gofynnwch i'ch grŵp roi taith o gwmpas y safle i'w hymwelwyr, gan rannu gwybodaeth am yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu am goed, rheoli coedwigoedd a'r diwydiant coed.

Gam Ymhellach

Gofynnwch i'ch dysgwyr ysgrifennu cynllun rheoli coetir i gytuno ar nodau a thasgau parhaus unwaith y bydd rhaglen Coedwigwr Ifanc Cymru wedi'i chwblhau.

Archwiliwch Goedwig Genedlaethol Cymru. Ydy'ch dysgwyr yn teimlo bod ganddyn nhw ran i'w chwarae ynddi?



Cydnabod Eu Llwyddiannau

Wrth i'ch grŵp symud ymlaen trwy Wobr Coedwigwr Ifanc Cymru dylen nhw gofnodi eu dysgu yn eu llyfrau log. Efallai y byddan nhw hefyd eisiau cadw lluniau o weithgareddau maen nhw wedi'u cyflawni neu bethau maen nhw wedi'u gwneud.

Mae tystysgrifau Gwobr Coedwigwr Ifanc Cymru ar gael i'w lawrlwytho pan fyddwch yn cofrestru, neu gellir eu harchebu ynghyd â bathodynau pin trwy siop y Gymdeithas Goedwigaeth Frenhinol. Archebwch y nifer sydd ei angen arnoch, a byddwn yn eu harwyddo a'u hanfon atoch ar gerdyn o ansawdd uchel yn barod i chi eu llenwi.



CWOBRR COEDWIGWR IFANC CYMRU

OFFER

SGIL	TYSTIOLAETH	DYDDIAD A LLOFNOD OEDOLYN	SGIL	TYSTIOLAETH	DYDDIAD A LLOFNOD OEDOLYN
GALLAF ADNABOD RISGIAU MEWN COEDWIG A GWELLA SAFLE I ERAILL EI DDEFNYDDIO.			GALLAF ADEILADU GWRTHRYCH O BREN I WELLA FY SAFLE.		
GALLAF ADNABOD O LEIAF 6 O GOED AR FY SAFLE.			GALLAF DDEFNYDDIO OFFER YN DDIOGEL I REOLI FY SAFLE.		
GALLAF ADNABOD A GWELLA CYNEFINOEDDI I DRYCHFILOD AC ANIFEILUAID AR FY SAFLE.			GALLAF EGLURO NODWEDDION FY SAFLE I YMWELWYR.		

Beth ydych chi wedi'i fwynhau fwyaf wrth gymryd rhan yng Ngwobr
Coedwigwr Ifanc Cymru?

Beth ydych chi wedi'i ddysgu?


Erioed wedi ystyried coedwigaeth fel gyrfa?
Am ragor o wybodaeth: Gyrfaoedd RFS

Hawlfraint © The Royal Forestry Society 2024. Cedwir pob hawl.

GWOBR COEDWIGWR IFANC CYMRU

ENW:.....

RFS
ROYAL FORESTRY SOCIETY



SGIL

TYSTIOLAETH

DYDDIAD A
LLOFNOD
OEDOLYN

GALLAF ADNABOD RISGIAU
MEWN COEDWIG A GWELLA
SAFLE I ERAILL EI
DDEFNYDDIO.

GALLAF ADNABOD O LEIAF
6 O GOED AR FY SAFLE.

GALLAF ADNABOD A GWELLA
CYNEFINOEDD I DRYCHFILOD
AC ANIFEILIAID AR FY SAFLE.

SGIL

TYSTIOLAETH

DYDDIAD A
LLOFNOD
OEDOLYN

GALLAF ADEILADU
GWRTHRYCH O BREN I
WELLA FY SAFLE.

GALLAF BLANNU
COEDEN / LLWYN /
GWRYCH.

GALLAF EGLURO
NODWEDDION FY
SAFLE I YMWELWYR.

Beth ydych chi wedi'i fwynhau fwyaf wrth gymryd rhan yng Ngwobr
Coedwigwr Ifanc Cymru?

Beth ydych chi wedi'i ddysgu?

Erioed wedi ystyried coedwigaeth fel gyrfa?
Am ragor o wybodaeth: Gyrfaoedd RFS

Hawlfraint © The Royal Forestry Society 2024. Cedwir pob hawl.

GWOBWR COEDWIGWR IFANC CYMRU

ENW:.....

RFS
ROYAL FORESTRY SOCIETY

